

# NFU CYMRU MANIFESTO

## MANIFFESTO NFU CYMRU AR GYFER ETHOLIAD CYFFREDINOL 2024

CEFNOGWCH FFERMWYR CYMRU

NFU CYMRU

NFU SUPPORTED BY NFU Mutual

# Ffermio Cymreig yn ffigurau

Mae priddoedd Cymru yn cynnwys
**410**
miliwn tunnell o garbon

**£2.1bn**
gwerth yr allbwn amaethyddol gros yng Nghymru

**£600m**
cyfanswm yr incwm o ffermio yn 2022

**50,400**
y nifer o bobl sydd wedi'u cyflogi ar ffermydd yng Nghymru

Mae gan Gymru
**106,000km**
o wrychoedd

**£8.1bn**
trosiant sector y sefydliad bwyd yng Nghymru

**233,500**
wedi'u cyflogi ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd a diod yng Nghymru

Mae
**43%**
o weithwyr yn y sector amaeth, coedwigaeth a physgodaeth yn siarad Cymraeg o'i gymharu â chyfartaledd o 19% ar draws bob sector yng Nghymru

**£797 miliwn**
gwerth yr allforion bwyd a diod o Gymru

Mae
**67%**
o bobl eisiau i broses cynhyrchu bwyd y DU fod mor hunangynhaliol â phosibl

Mae ffermwyr Cymru yn rheoli dros
**80%**
o arwynebedd tir Cymru.

Mae tri chwarter oedolion Cymru
**(74%)**
yn ystyried bod y bwyd a gynhyrchir yng Nghymru yn fwyd o safon uchel


NFU CYMRU

# Rhagarweiniad

Mae'r pum mlynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid a her sylweddol. Mae'r DU wedi llywio ei ffordd o'r UE, wedi delio â phandemig byd-eang a chyfnodau o dywydd eithafol tra bo rhyfel wedi ffrwydro yn Ewrop, ac mae gwrthdaro yn y Dwyrain Canol.

Drwy gydol y cyfnod hwn, mae ffermwyr Cymru wedi parhau i wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud orau, cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel sy'n ystyriol o'r hinsawdd, ar yr un pryd â chynnal a gwella ein hamgylchedd a ffermir a chefn gwlad hardd. Fel erioed, mae ein ffermwyr yn barod i ymateb i heriau mawr cymdeithas, ac rydym yn awyddus i barhau i dyfu ein diwydiant bwyd a ffermio gwerth £8 biliwn ar yr un pryd â gweithio tuag at darged NFU Cymru ei hun o wneud y sector yn allyrrydd nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2040.

Er bod amaethyddiaeth wedi'i datganoli i Gaerdydd ers chwarter canrif, mae nifer o feysydd polisi pwysig a sylweddol wedi'u neilltuo i San Steffan sy'n effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar y diwydiant a'r cymunedau gwledig y mae ein haelodau'n byw ac yn gweithio ynddynt. Bydd Llywodraeth nesaf y DU hefyd yn penderfynu ar y gyllideb ar gyfer ffermio yng Nghymru, cyllideb sy'n hanfodol os ydym am wireddu ein huchelgais i arwain y byd o ran cynhyrchu bwyd sy'n ystyriol o'r hinsawdd mewn cyd-destun lle mae ein byd natur yn ffynnu.

Bydd maniffesto NFU Cymru ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn ystyried yr ysgogiadau polisi hynny a fydd yn cyd-fynd â'n carfan nesaf o gynrychiolwyr San Steffan a'r ffordd orau o ddefnyddio'r rhain i sicrhau bod gennym sector amaethyddol ac economi wledig ffyniannus.

Drwy'r ddogfen hon rydym yn cynnig safbwynt NFU Cymru i chi ar yr hyn rydym yn ystyried yw'r materion mwyaf brys a phwysig y bydd angen i Senedd a Llywodraeth newydd yn San Steffan eu hystyried a mynd i'r afael â hwy er mwyn ein cefnogi i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer diwydiant ffermio cynhyrchiol, proffidiol a blaengar yng Nghymru.









# Cefnogi ffermwyr Cymru





Mae ffermio'n fusnes hirdymor gyda chylchoedd cynhyrchu hirdymor ac mae'n rhaid iddo ddelio ag ansefydlogrwydd sylweddol yn y farchnad, digwyddiadau tywydd, a chlefydau anifeiliaid a phlanhigion, sydd yn amlach na pheidio yn ffactorau sydd y  tu hwnt i reolaeth y ffermwr

Mae buddsoddiad y Llywodraeth mewn amaethyddiaeth yn rhoi sefydlogrwydd i fusnesau fferm ac mae'n hanfodol er mwyn cynnal y cyflenwad o fwyd diogel, fforddiadwy o ansawdd uchel i bawb, rhywbeth sy'n dod yn fwyfwy pwysig mewn byd sy'n fwyfwy ansefydlog wrth i wrthdaro barhau, cadwyni cyflenwi sydd dan straen cynyddol, ac wrth i'n hinsawdd newid.



Mae'r cyhoedd yn cefnogi ffermwyr Cymru, gydag arolwg diweddar gan YouGov o dros 1000 o oedolion yng Nghymru yn canfod bod 82% yn cefnogi rhoi cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i ffermwyr i gynhyrchu bwyd.





## EIN GOFYNION O LYWODRAETH SAN STEFFAN

**Ymrwymiad clir i ddarparu cyllideb cymorth amaethyddol yn y DU ar gyfer cyfnod y Senedd nesaf - cyllideb amlflynyddol wedi'i chlustnodi a fydd yn mynd a ni at yr etholiad nesaf.**

**Ar y cyd â hyn, mae angen i Lywodraeth nesaf San Steffan edrych o'r newydd ar y dyraniad cyllidebol y mae'n ei ddarparu i gefnogi amaethyddiaeth y DU er mwyn adfer ei gwerth termau real sydd wedi'i erydu'n sylweddol gan gyfraddau uchel iawn o chwyddiant amaethyddol.**

**Mae NFU Cymru yn credu bod angen cyllideb sylfaenol o dros £500m ar ffermio yng Nghymru bob blwyddyn i ystyried chwyddiant ac i helpu i sicrhau bod modd cyflawni ein huchelgeisiau o ran bwyd, yr hinsawdd a natur**



NFU CYMRU





# Hyrwyddo ein diogelwch bwyd

Rhaid rhoi'r flaenoriaeth y maen nhw ei hangen a'i haeddu i gynhyrchu bwyd a diogelwch bwyd yn y wlad hon.  Mae'r pandemig, goresgyniad Rwsia o Wcráin, y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, i gyd wedi ein hatgoffa o ba mor gymhleth yw ein cadwyni cyflenwi bwyd, a pha mor hawdd yw tarfu arnynt.

Yn ogystal â darparu cyllideb i gefnogi amaethyddiaeth gynhyrchiol, mae nifer o gamau eraill y gall Llywodraeth nesaf y DU eu cymryd i sicrhau bod gennym lefelau uchel o gynhyrchu cynradd yng Nghymru a'r DU





## EIN GOFYNION O LYWODRAETH SAN STEFFAN

**Ymrwymiad i gael mwy a mwy o fwyd i'r sector cyhoeddus gan ffermwyr Cymru a Phrydain**

**Labeli gwlad tarddiad cadarnach ar draws y gwasanaeth adwerthu, lletygarwch a bwyd, gyda labeli clir a chywir sy'n caniatáu i ddefnyddwyr wneud dewis gwybodus ynghylch o ble daw eu bwyd**

**Cynyddu pwerau ac adnoddau Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser i fynd y tu hwnt i'r adwerthwyr mwyaf a chynnwys y gadwyn gyflenwi bwyd gyfan**

**Sefydlu safonau sylfaenol i fynd i'r afael ag anghydbwysedd ac i hyrwyddo cadwyn gyflenwi deg a gweithredol, gyda'r oruchwyliaeth a'r cymrodeddu sydd eu hangen i'w cynnal.  Lle bo angen, hoffem weld Gweinidogion yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 i sicrhau bod contractau cyflenwi yn deg ac yn dryloyw, gan adeiladu ar y gwaith a wneir yn y sector llaeth**

**Yn ogystal, credwn fod angen cynnal asesiadau effaith penodol i Gymru ar gytundebau masnach cyfredol ac yn y dyfodol, o gofio pa mor bwysig yw gwerth ein sector bwyd-amaeth i Gymru**

**Asesiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi o effaith ein Cytundebau Masnach Rydd ar gynhyrchu a defnyddio bwyd domestig er mwyn rhoi darlun clir o'u heffeithiau cronnus, er mwyn i ni allu deall yn well effaith ein cysylltiadau masnachu newydd â gweddill y byd**

# Ein lle yn y byd





Ar ôl gadael yr UE yn 2020, mae ein perthynas fasnachu newydd â'r UE27 yn parhau i ymsefydlu. Er bod rhwystrau newydd i fasnachu lle nad oedd dim yn bodoli o'r bl mae lle i liniaru rhai o'r rhain a gwneud bywyd yn haws i'n hallforwyr.

Rhoddwyd mynediad hael i farchnad y DU ar gyfer rhai o gynhyrchwyr bwyd-amaeth mwyaf a mwyaf cystadleuol y byd.   Ni all amaethyddiaeth fod yn adnodd bargeinio pan ddaw'n fater o wneud cytundebau masnach ac mae angen i'n gwleidyddion fod ar ei gwyliadwraeth am effeithiau niweidiol sy'n deillio o gytundebau masnach trydedd gwlad sydd eisoes ar waith.   Mae'r diwylliant, y dreftadaeth a'r ansawdd sy'n gysylltiedig â bwyd a diod o Gymru yn golygu bod galw am ein cynnyrch ledled y byd. Dylai gwleidyddion sicrhau bod unrhyw gytundebau masnach newydd yn agor drysau ac yn ein galluogi i fanteisio ar y cyfle i fwy o ddefnyddwyr ledled y byd fwynhau bwyd a diod o Gymru.

## EIN GOFYNION O LYWODRAETH SAN STEFFAN

Byddai sicrhau cytundeb milfeddygol gyda'r UE yn lleihau'r angen am wiriadau beichus ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n symud o'r DU i'r UE, ac mae hyn yn rhywbeth y credwn y dylai Llywodraeth nesaf y DU fynd ar ei thrywydd gyda'r UE fel mater o flaenoriaeth.

Mae ffermwyr Cymru yn falch iawn o statws PGI ein cig oen a'n cig eidion yng Nghymru yn ogystal â'r holl ddynodiadau daearyddol a roddir ar amrywiaeth o fwyd a diod o Gymru.   Mewn trafodaethau masnach yn y dyfodol, rydym am weld y dynodiadau tarddiad ac ansawdd hyn yn cael eu hyrwyddo gan negodwyr y DU fel eu bod yn cael eu deall, eu parchu a'u diogelu gan ddarpar bartneriaid masnachu

Llawer mwy o rôl i ASau a'r Senedd wrth i gytundebau masnach gael eu rhoi ar waith, eu negodi a'u cwblhau.Dylid cryfhau gweithdrefnau seneddol ar gyfer goruchwylio a chraffu ar gytundebau masnach gyda thrydydd gwledydd. Mae angen i ASau gael y cyfle i gyfrannu at y broses gosod mandadau a rhoi sylwadau ystyrlon ar y canlyniad terfynol.

Ar y cyd â hyn, dechrau proses ffurfiol o ddatblygu a sefydlu safonau cynhyrchu craidd sy'n berthnasol i fewnforion bwyd-amaeth ac ailddatgan ymrwymiadau'r llywodraeth i gadw sofraniaeth lawn dros ein safonau bwyd a ffermio mewn trafodaethau Cytundebau Masnach Rydd yn y dyfodol.

Ymrwymiadi sicrhau bod gytundebau masnach yn y dyfodol fod yn llawer mwy cytbwys, gydag anghenion a sensitifrwydd pob sector o'r economi yn cael eu hystyried yn briodol.  Ni ellir rhuthro cytundebau masnach yn y dyfodol ac ni ellir caniatáu i'r telerau a roddir i Awstralia a Seland Newydd osod cynsail ar gyfer yr hyn y gall gwledydd eraill ei ddisgwyl gan y DU o ran mynediad i'r farchnad.

Gyda chytundebau masnach Awstralia a Seland Newydd ar waith ochr yn ochr â nifer sylweddol o gytundebau masnach eraill, mae angen i Lywodraeth y DU fod yn wyliadwrus wrth fonitro unrhyw effeithiau niweidiol ar ein sector amaethyddol a bod yn barod i ymateb gyda mesurau diogelu yn unol â hynny.

Rhaid i gyfleoedd ar ôl Brexit i werthu cynnyrch o ansawdd uchel o Gymru a Phrydain i gyrchfannau allforio newydd gael eu gwireddu'n llawn.   Mae angen i Lywodraeth nesaf y DU gadw a datblygu'r rhwydwaith o gyflenwyr bwyd-amaeth mewn marchnadoedd allweddol er mwyn iddynt allu sbarduno twf allforio.

Gyda gwiriadau ffiniau bellach ar waith ar rai categorïau o nwyddau sy'n dod i mewn, rhaid i ni sicrhau bod y gwiriadau hyn, sydd ar flaen y gad yn ein hamddiffynfeydd yn erbyn ymlediad clefydau planhigion ac anifeiliaid, yn wirioneddol gadarn ac yn addas i'r diben, gan gynnwys yn ein porthladdoedd yng Nghymru.



NFU CYMRU



# Ein nodau newid yn yr hinsawdd



O ran newid yn yr hinsawdd, mae amaethyddiaeth mewn sefyllfa eithaf unigryw fel ffynhonnell allyriadau a dalfa.

Uchelgais NFU Cymru yw, drwy weithio ar draws rhestrau nwyon tŷ gwydr, y dylai amaethyddiaeth Cymru fod yn allyrru nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2040, ond ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain ac mae angen cymorth a chefnogaeth y Llywodraeth arnom wrth i ni symud tuag at ein nod sero net

# Troseddu yng Nghefn Gwlad



Mae Troseddu yng nghefn gwlad yn her sylweddol a pharhaus i ffermwyr ac eraill sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad, ac mae'n cwmpasu amrywiaeth o droseddau, o ddwyn ar ffermydd i boeni da byw, i dipio anghyfreithlon i yrru anghyfreithlon oddi-ar-y-ffordd.

Mae troseddu yng nghefn gwlad yn cael effaith sylweddol ar ei ddioddefwyr nid yn unig yn ariannol, ond hefyd yn emosiynol ac o ran ansawdd eu bywyd.

## EIN GOFYNION O LYWODRAETH SAN STEFFAN

**Mae angen cymorth Llywodraeth y DU arnom i gyrraedd ein nod sero net,drwy gymell a chefnogi ynni adnewyddadwy ar y fferm**

**Meithrin a chefnogi'r ymchwil a datblygu a all helpu'r sector i leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr - llawer ohonynt sy'n ganlyniad prosesau biolegol sy'n hanfodol i amaethyddiaeth - ar yr un pryd â chynhyrchu'r bwyd diogel, fforddiadwy ac o ansawdd uchel rydyn ni i gyd ei eisiau a'i fwynhau.**

**Ymateb cyson a chydlynol i droseddu yng nghefn gwlad ar draws heddluoedd, gan gynnwys cyllid teg ar gyfer plismona gwledig, a thîm troseddau gwledig pwrpasol ym mhob ardal heddlu**

**Troseddwyr yn cael eu dedfrydu'n llymach er mwyn cael effaith ataliol. Rydym yn annog Gweinidogion mewn llywodraeth yn y dyfodol i wneud defnydd llawn o'r pwerau a roddwyd iddynt yn Neddf Lladrad Cyfarpar (Atal) 2023 i ehangu cwmpas y ddeddfwriaeth**

**Mae ymosodiadau gan gŵn ar dda byw yn drawmatig a gallant gael effaith ddinistriol ar fusnes fferm. Hoffem weld y gyfraith yn cael ei chryfhau yn y maes hwn gyda mwy o ddirwyon i berchnogion y mae eu cŵn yn ymosod ar dda byw, gofyniad clir y dylid cadw cŵn ar dennyn o gwmpas da byw a mwy o bwerau i'r heddlu, gan gynnwys y pŵer i gael samplau DNA gan gŵn y credir eu bod wedi ymosod ar dda byw.**

# Mynediad at lafur



Amaethyddiaeth Cymru yw asgwrn cefn economi wledig Cymru, ac mae cynhyrchu'r cynhwysion crai ar gyfer sector bwyd a diod werth £8.1biliwn. Mae angen i ffermwyr a'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth gael mynediad at y gweithlu sydd ei angen arnynt os ydynt am allu parhau i weithredu busnesau llwyddiannus sy'n cyfrannu at yr economi ehangach.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o sectorau amaethyddol a phroseswyr bwyd wedi cael trafferth recriwtio'r llafur sydd ei angen arnynt, boed hynny'n llafur parhaol neu dymhorol. Er gwaethaf ymdrechion i recriwtio'r llafur hwn yn ddomestig, mae gweithwyr y DU wedi bod yn amharod i ymgymryd â chyflogaeth yn y sector, her sydd wedi cael ei gwaethygu gan amodau tynn y farchnad lafur yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae argaeledd llafur bellach yn rhwystr i lawer o fusnesau ffermio, gan gyfyngu ar dwf a hyd yn oed achosi risg o ostyngiad mewn cynhyrchu bwyd. Mae hepgor cynhyrchu amaethyddol o ganlyniad i ddiffyg llafur nid yn unig yn effeithio ar fusnes ffermio unigol ond hefyd ar ein diogelwch bwyd cenedlaethol a'n heconomi ehangach.



## EIN GOFYNION O LYWODRAETH SAN STEFFAN

**Mae cynnyddu y trothwy cyflog cyfferdinol i £38,700 ar gyfer recriwtio gweithwyr medrus o dramor yn gweithredu fel anghymhelliad i fusnesau fferm i sicrhau'r llafur sydd ei angen arnynt gan ei fod wedi'i osod ar lefel sy'n uwch na llawer o'r swyddi gwag ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru. Credwn fod y trothwyon cyflog hyn yn amhriodol a gofynnwn i Lywodraeth nesaf y DU edrych arnynt eto.**

**Cydnabyddiaeth o'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar weithiwr i fod yn gymwys mewn rolau amaethyddol penodol gael eu cydnabod drwy'r llwybr fisa Gweithiwr Medrus.**

**Cyflwyniad o gynllun gweithiwr tymhorol treigl pum mlynedd o leiaf, gyda fisâu ar gyfer gweithwyr tymhorol sy'n para naw mis a chyfnod ystyried o dri mis.**